TIRLUN

# STRAEON HUDOLUS O GYMRU

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch am ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae'r dysgwyr yn ystyried beth yw stori ac yn archwilio'r gwahaniaeth rhwng myth a chwedl, gan archwilio'r lleoedd a'r themâu sy'n ymddangos yn aml mewn chwedl nodweddiadol. Maent yn gwahodd rhywun yn eu cartref i adrodd stori iddynt, gan egluro pam maent yn hoffi adrodd y stori. Mae'r dysgwyr yn rhannu'r straeon hyn, gan eu cymharu a'u dadansoddi, ac yna'n dewis eu ffefryn.

Mae'r dysgwyr yn datblygu eu creadur chwedlonol sy'n byw mewn lle arbennig yn yr awyr agored ac yn ymchwilio i greaduriaid chwedlonol Cymreig, gan greu poster sy'n cynnwys lluniau. Maent yn creu eu creadur chwedlonol ac yn esbonio beth mae'n ei wneud a pham, cyn myfyrio ar y dasg.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o wneud modelau o greaduriaid chwedlonol (yn ôl yr angen), e.e. clai modelu, defnyddiau wedi'u hailgylchu, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YW STRAEON, MYTHAU A CHWEDLAU?

Anogir y dysgwyr i ystyried beth yw stori, yn eu meddyliau nhw, a sut mae pobl yn adrodd straeon am bethau go iawn a phobl go iawn, ac mae pobl hefyd yn adrodd straeon am bethau dychmygol a phobl ddychmygol. Maent yn archwilio'r gwahaniaeth rhwng myth a chwedl a'r delweddau sy'n gysylltiedig â'r ddau, drwy gyflawni tasg ryngweithiol. Mae'r dysgwyr yn gwylio fideo am chwedl Gymreig (Y Ddraig Goch), gan ei defnyddio fel sail i archwilio'r lleoedd a'r themâu sy'n aml yn ymddangos mewn chwedl nodweddiadol.

Os ydych am i ddysgwyr archwilio mythau a chwedlau Cymru yn fwy manwl neu os ydych am iddynt gael mynediad at ddarllen cefndir ar gyfer ymchwil, gallai'r dolenni canlynol fod yn ddefnyddiol.

- Adnoddau Addysg – Cadw
- Straeon, Mythiau a Chwedlau – Cadw
- Chwedlau a llên gwerin Cymru – Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Gwlad y Chwedlau
- Myths and legends – BBC (Saesneg yn unig)
- Legends and Customs of Wales – History Points (Saesneg yn unig)
- Mytholeg Gymreig – Wicipedia
- After Dark: Myths, Misdeeds & the Paranormal – The Mysterious World of Welsh Myth and Legend – BBC Sounds (Saesneg yn unig)
- Chwedlau Cymru

I'r rhai sydd am gael safbwynt mwy hanesyddol, gweler: The Project Gutenberg eBook of British Goblins: Welsh Folk-lore, Fairy Mythology, Legends and Traditions, by Wirt Sikes (Saesneg yn unig).

TASG 2

## PA STRAEON O'N TEULU A'N CYMUNED ALLWN NI EU DARGANFOD?

Cyflwynwch y dysgwyr i'r syniad bod pobl yn hoffi adrodd straeon a bod straeon yn aml yn chwarae rhan bwysig mewn llawer o sgyrsiau. Gofynnwch i'r dysgwyr wahodd rhywun yn eu cartref i adrodd stori maen nhw'n ei hoffi ac egluro pam maen nhw'n hoffi adrodd y stori. Gall dysgwyr ddarlunio'r stori, efallai fel cartŵn neu fel bwrdd stori, a rhannu'r stori gyda gweddill y dosbarth. Gwahoddwch barau o ddysgwyr i gymharu a dadansoddi'r straeon, dewis ffefryn ac ystyried a yw unrhyw un o'r straeon yn fyth neu'n chwedl. Yn olaf yn y dasg hon, anogwch y dysgwyr i ystyried pam mae pobl yn hoffi adrodd a gwrando ar straeon.

TASG 3

# SUT GALLWN NI DDYFEISIO EIN CREADUR CHWEDLONOL EIN HUNAIN?

Rhowch wybod i'r dysgwyr eu bod yn mynd i ddatblygu creadur chwedlonol sy'n byw mewn lle arbennig yn yr awyr agored. Er mwyn eu hysgogi, gofynnwch iddynt wylio'r fideo a nodi unrhyw leoedd arbennig sy'n cael eu crybwyll yn y stori. Mae'r fideo yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL), felly gallai fod yn fan cychwyn i archwilio hyn ymhellach. Yn dilyn hyn, gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored er mwyn dod o hyd i le arbennig lle gallai eu creadur chwedlonol fyw.

Gofynnwch i barau o ddysgwyr wneud rhywfaint o ymchwil ar-lein i ddod o hyd i enghreifftiau o greaduriaid chwedlonol Cymreig a chreu poster sy'n cynnwys delweddau o'r creaduriaid hyn. Gwahoddwch nhw i dynnu llun eu creadur chwedlonol (neu i wneud model ohono) ac yna i egluro beth mae'n ei wneud a pham. Yn olaf, anogwch y dysgwyr i ddefnyddio'r ymadroddion ar ddechrau eu brawddegau i fyfyrio ar y dasg.

Mae'r tasgau hyn yn sail i archwilio i adrodd straeon a datblygiad mythau a chwedlau. Efallai yr hoffech annog y dysgwyr i archwilio'r syniadau hyn yn fwy manwl, er enghraifft gallent adeiladu model o'u creadur gan ddefnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu; creu myth sy'n cynnwys eu creadur neu weithio mewn grwpiau a chynnwys amrywiaeth o'r creaduriaid.

Dyma rai dolenni a allai fod yn werth eu harchwilio ar gyfer pob Tirwedd Ddynodedig.

## Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn

Magic, myth and mystery: The history of Anglesey's druids – Herald.Wales (Saesneg yn unig)

Wales History: The Llanddona Witches – BBC (Saesneg yn unig)

The hidden story behind mythical Anglesey island popular with tourists – North Wales Live (Saesneg yn unig)

## Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Fairy Legends of the Bannau Brycheiniog - Icy Sedgwick (Saesneg yn unig)

Welsh Culture Walks – TrigPoint Adventures (Saesneg yn unig)

Mythau a chwedlau – Geoparc Byd-eang UNESCO

Welsh Lake Legends and Folklore: Llyn Cwm Llwch and the Door of the Tylwyth Teg – #FolkloreThursday (Saesneg yn unig)

### Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Myths, Legends and History of North Wales – Curious Clwyd (Saesneg yn unig)

Strange Tales of Castell Dinas Brân in Llangollen, Denbighshire, Wales – Into Horror History – J.A. Hernandez (Saesneg yn unig)

St Collen and the Fairy Court – a legend of Llangollen – Bylines Cymru (Saesneg yn unig)

Storïau, Mythau a Chwedlau – Tudalen 2 – Amgueddfa Llangollen

### Parc Cenedlaethol Eryri

Mytholeg a Llên Gwerin – Parc Cenedlaethol Eryri

Myths and legends – Carneddau Landscape Partnership (Saesneg yn unig)

### Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr

Myths of Pennard Castle, Gower – History Points (Saesneg yn unig)

Gower Folk Tales & Legends – Coast Swansea (Saesneg yn unig)

### Tirwedd Cenedlaethol Llŷn

Legends of the Llyn Peninsula – Rhiw Goch Inn – Snowdonia - YouTube (Saesneg yn unig)

### Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Gwlad y Chwedlau – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Myths & Legends – Pembrokeshire.Online (Saesneg yn unig)

### Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy

Myths & Legends of the Wye – Visit the Forest of Dean & Wye Valley

Myths & Legends of the Wye Trail PDF – Visit the Forest of Dean & Wye Valley (Saesneg yn unig)

Wye Valley and Forest of Dean: Myths and Legends Video – Visit the Forest of Dean and Wye Valley – YouTube (Saesneg yn unig)

## Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Y gweithgareddau eraill ar Tirlun sy'n ystyried mythau a chwedlau Cymreig yw:

- Beth yw mythau a chwedlau Cymru?
- Llŷn ysbrydoledig
- Bannau Brycheiniog ysbrydoledig

Gellir addasu'r rhain i gyd ar gyfer unrhyw leoliad.